OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 568 (Cy. 124)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Fynwy) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Mawrth 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *14 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Ebrill 2019* |

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru(**1**) drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**2**).

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o ardal y Cyngor hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Gwent yn unol â gofynion paragraff 8(3) o Atodlen 8 a pharagraff 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Fynwy) 2019 a daw i rym ar 8 Ebrill 2019.

### Dynodi ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcioac ardal gorfodi arbennig

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

(**1**) Yn rhinwedd adran 92 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru, at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf honno. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2004 p. 18.

*Ken Skates*
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

13 Mawrth 2019

## YR ATODLEN

Erthygl 2

**Ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig**

Ardal Sir Fynwy ("y Sir") ac eithrio—

(a) y darn o Drafffordd yr M4 o fewn y Sir, o'r ffin â Dinas Casnewydd hyd at y ffin wrth Bont Tywysog Cymru, gan gynnwys ei ffyrdd ymadael ac ymuno;

(b) y darn o Drafffordd yr M48 o fewn y Sir, o'i chyffordd â Thraffordd yr M4 hyd at y ffin â Phont Afon Gwy, gan gynnwys ei ffyrdd ymadael ac ymuno;

(c) y darn o Gefnffordd yr A40 o fewn y Sir, o'i chyffordd â Chefnffordd yr A465 hyd at y ffin â Sir Powys ac o'i chyffordd â Chefnffordd yr A465 hyd at y ffin â Swydd Henffordd, gan gynnwys ei ffyrdd ymadael ac ymuno;

(d) y darn o Gefnffordd yr A465 o fewn y Sir, o'i chyffordd â Chefnffordd yr A40 hyd at y ffin â Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac o'i chyffordd â Chefnffordd yr A40 hyd at y ffin â Swydd Henffordd, gan gynnwys ei ffyrdd ymadael ac ymuno;

(e) y darn o Gefnffordd yr A449 o fewn y Sir, o'r ffin â Dinas Casnewydd hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A40, gan gynnwys ei ffyrdd ymadael ac ymuno;

(f) y darn o Gefnffordd yr A4042 o fewn y Sir, o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Torfaen hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A465;

(g) y darn o Gefnffordd yr A466 o fewn y Sir, o'i chyffordd â thraffordd yr M48 hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A48; ac

(h) y darn o Gefnffordd yr A48 o fewn y Sir, o'i chyffordd â Chefnffordd yr A466 hyd at y ffin â Swydd Gaerloyw.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae'r Gorchymyn hwn yw galluogi Cyngor Sir Fynwy i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau parcio o fewn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn drwy gyfundrefn cyfraith sifil, yn hytrach na gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu neu wardeiniaid traffig yng nghyd-destun y gyfraith droseddol.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Seilwaith Economaidd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=14828